Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

Fideogynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Chwefror 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

P Gareth Williams

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

O bell – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 – 13.35)

2.4 SL(6)324 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2023

(Tudalen 1)

Rheoliadau [Saesneg yn unig]

Memorandwm Esboniadol [Saesneg yn unig]

Dogfennau atodol:

LJC(6)-07-23 – Papur 27 – Ymateb Llywodraeth Cymru

5 Papurau i'w nodi

(13.45 – 13.50)

5.7 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

(Tudalennau 2 – 3)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-07-23 - Papur 26 - Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 23 Chwefror 2023

7 Cyflwyniad drafft ar gyfer Ymchwiliad Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban: Sut mae Datganoli'n Newid ar ôl Gadael yr UE?

(13.50 - 14.00) (Tudalennau 4 - 11)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-07-23 - Papur 19 - Cyflwyniad drafft [Saesneg yn unig]

10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol: Adroddiad drafft

(14.30 - 14.40) (Tudalennau 12 - 18)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-07-23 - Papur 25 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2023

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Yng ngoleuni'r hinsawdd economaidd bresennol, mae'r Rheoliadau i osod cyfradd llog unffurf ar gyfer benthyciadau Cynllun 2 a Chynllun 3 i fyfyrwyr yn unol â Chyfradd Gyfredol y Farchnad yn cael eu gwneud fel mater o drefn erbyn hyn, tra oeddent yn bur anarferol o'r blaen.

Gan fod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud yn fwy rheolaidd, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth ac wedi nodi nad oedd asesiad o'r fath yn ofynnol.

Mae'r rhesymau dros hynny wedi eu nodi'n glir yn y Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023").

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y darparwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r blaen yn y Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2022. Fodd bynnag, gan nad yw asesiad effaith rheoleiddiol yn ofynnol o dan y Cod, nid oedd unrhyw ofyniad i atgynhyrchu'r asesiad cynharach, nac i gyfeirio ato ychwaith yn y Memorandwm Esboniadol i Reoliadau 2023.

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

—

Local Government and Housing Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

23 Chwefror 2023

Annwyl Lywydd,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar gyfer y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi bod yn trafod memoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), a'r ffaith ein bod wedi adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cychwynnol a Memoranda Atodol 2-4. Ar 7 Chwefror, cytunodd y Pwyllgor Busnes i'n gwahodd i drafod Memorandwm Atodol (Rhif 5) ac i gyflwyno adroddiad arno erbyn 27 Chwefror.

Cafodd Memorandwm Atodol (Rhif 5) ei osod gan Lywodraeth Cymru ar 15 Chwefror. Felly, yr unig gyfle a gawsom i drafod y Memorandwm dan sylw oedd ein cyfarfod ar 16 Chwefror, gan fod toriad hanner tymor y Senedd yn digwydd yn yr wythnos ganlynol. O ystyried yr amserlen gyfyngedig hon, nid oedd modd inni drafod y nodyn cyngor cyfreithiol yn ein cyfarfod. Fodd bynnag, roedd amser inni gael diweddariad llafar gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ar ei ddarpariaethau. Mae'r Aelodau'n teimlo'n gryf nad yw un cyfarfod yn unig yn ddigonol ar gyfer trafod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a chyflwyno adroddiad arno.

Yn sgil ein gohebiaeth flaenorol, byddwch yn ymwybodol o bryderon y Pwyllgor ynghylch y defnydd cynyddol o Filiau'r DU a'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol er mwyn deddfu mewn meysydd datganoledig, ac yn benodol ein pryderon ynghylch y diffyg cyfleoedd sydd ar gael i Aelodau graffu ar y darpariaethau o fewn yr amser a neilltuir. Rwyf wedi datgan eisoes ein bod yn credu'n gryf fod yr amser byr a neilltuir ar gyfer y broses cydsyniad deddfwriaethol yn annigonol o ran ein galluogi ni i ddeall yn llawn beth yw effaith y darpariaethau ar fywydau pobl yng Nghymru.

Yn anffodus, yn sgil y cyfyngiadau amser, ni fydd modd inni gyhoeddi adroddiad ar ein trafodaethau ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5). Nodwn, fodd bynnag, y dywed Memorandwm Rhif 5 bod oddeutu 530 o eiddo tai cymdeithasol yng Nghymru o dan berchnogaeth / yn cael eu rheoli gan Ddarparwyr Cofrestredig yn Lloegr a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau a gyflwynir gan y Bil, ac na fydd dim effaith ar y mwyafrif helaeth o eiddo tai cymdeithasol yng Nghymru. Nodwn hefyd fod y Memorandwm yn nodi y bydd y Bil yn arwain at "*newid cadarnhaol i holl denantiaid darparwyr cofrestredig Seisnig, gan gynnwys tenantiaid Cymru y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt*".

Yn ein hadroddiadau blaenorol ar y Memoranda yn ymwneud â'r Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), nodasom ein pryderon am y cyfnod byr a ddyrannwyd ar gyfer y broses gydsynio deddfwriaethol. Teimlai'r rhan fwyaf o'r Aelodau, fodd bynnag, y gallant argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i ddeddfu ar y materion datganoledig hyn y tro hwn. Roedd un Aelod o'r Pwyllgor, sef Mabon ap Gwynfor AS, yn anghytuno â barn y mwyafrif ac roedd o'r farn na ddylid rhoi cydsyniad.

O ystyried yr amser sydd ar gael i graffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5), nid yw'r Pwyllgor mewn sefyllfa i ffurfio barn ynghylch a ddylid argymell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau a gynhwysir yn y Memorandwm diweddaraf, neu yn gwrthod rhoi ei chydsyniad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon